GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Tîm Amddiffyn Iechyd**
**Health Protection Team**

**Ffôn/Tel:** 0300 00 300 32
**Ebost/Email:** aware@wales.nhs.uk

**Gwefan/Web:**
www.iechydcyhoedduscymru.org
www.publichealthwales.org

Eich cyf:
Ein cyf:

Dyddiad: 11/11/2024

**Cyngor ymwybyddiaeth, rhybuddio a hysbysu ar gyfer pobl sy'n arddangos neu'n adrodd am symptomau dolur rhydd a chwydu**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Awdurdod Iechyd Amgylcheddol Lleol Sir Gaerfyrddin a Bae Abertawe wedi dod i wybod am nifer o unigolion sydd ar hyn o bryd yn adrodd am salwch debyg i gastro-enteritis, gan gynnwys dolur rhydd a chwydu, yn yr ardal.

A allwn ni ofyn i chi ddilyn y canllawiau isod er mwyn diogelu eich hunain ac unrhyw bobl eraill yn eich lleoliadau gofal plant, ysgol ac addysgol? Gofynnir i chi rannu hyn gyda'r rhieni a'r staff sy'n defnyddio'ch lleoliad:

- Os oes unrhyw un sy'n mynd i'ch lleoliadau gofal plant, ysgol ac addysgol yn adrodd eu bod yn sâl gyda dolur rhydd neu chwydu, dylid eu hanfon adref gan beidio â dychwelyd hyd nes eu bod yn rhydd rhag symptomau am 48 awr.
- Os oes unrhyw un yn profi salwch gan gynnwys dolur rhydd neu chwydu, anogwch nhw i gysylltu â'u meddyg teulu neu wasanaeth iechyd lleol i ddarparu sampl ysgarthion (pŵ) .
- Rhowch wybod iddynt hefyd y dylent geisio cyngor meddygol os bydd y symptomau'n gwaethygu neu os oes ganddynt bryderon.
- Mae Hylendid Dwylo yn bwysig iawn i bawb – gwnewch yn siŵr bod hylendid dwylo da yn cael ei arfer a bod pawb yn golchi eu dwylo, yn enwedig ar ôl mynd i'r toiled. Dylai unrhyw un sydd â symptomau beidio â pharatoi bwyd i eraill, a sicrhau bod pawb yn golchi eu dwylo cyn bwyta.


Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r llythyr hwn, cysylltwch â thîm AWARe Iechyd Cyhoeddus Cymru ar – 0300 003 0032.

Mae cyngor pellach ar gael yma:

GIG 111 Cymru - Gwyddoniadur : Gwenwyn bwyd

GIG 111 Cymru - Gwyddoniadur : Dolur rhydd

Cofion cynnes



Elizabeth Marchant
**Ymgynghorydd Diogelu Iechyd**

**Swyddfa'r De a'r Dwyrain**
4ydd Llawr
2 Capital Quarter
Stryd Tyndal
Caerdydd CF10 4BZ

**Swyddfa'r Canolbarth a'r Gorllewin**
Tŷ Matrix
Rhodfa'r Gogledd
Parc Anturiaeth Abertawe
Abertawe SA6 8DP

**Swyddfa'r Gogledd**
Preswylfa
Heol Hendy
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint CH7 1PZ